**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**19 Ebrill 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Chwarter ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau – Bargen Twf Canolbarth Cymru |

## 1 Diben yr adroddiad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r canlynol:

- trosolwg cryno o gynnydd dros y chwarter diwethaf ac o'r camau nesaf yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru.

## 2 Penderfyniad(au) a geisir

2.1 I gymeradwyo'r Achos Busnes Portffolio Strategol (v3) a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Broses Cymeradwyo Ariannu Blynyddol - gweler Eitem 6.

## 3 Cyflawni

3.1 Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae gwaith y tîm wedi bod yn canolbwyntio ar adolygu cynnydd ac ar flaengynllunio sy'n ymwneud â'r camau a'r cerrig milltir nesaf. Wrth i'r Portffolio ddatblygu, mae'r tîm wedi nodi meysydd lle mae angen gwaith neu arweiniad pellach, er enghraifft yr heriau y mae Noddwyr Prosiectau yn eu hwynebu o ran gofynion achosion busnes ac o ran ymgyfarwyddo â'r broses.

3.2 Mae gwaith pellach wedi'i gyflawni ar brosesau llywodraethiant ac ar sicrhau bod gweithdrefnau ar waith lle bo angen, er enghraifft mae proses rheoli cymorthdaliadau wedi'i datblygu ar ôl cael cyngor a mewnbwn gan Uned Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru.

3.3 Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio hefyd wedi datblygu protocol rheoli newid ar gyfer y Portffolio er mwyn ymdrin ag achosion megis prosiectau'n dod i stop/ yn methu, ac mae wedi datblygu system ar gyfer adolygu a diweddaru rhestr o brosiectau arfaethedig **– gweler eitem 6 ar yr agenda.**

### Y Rhaglen Ddigidol

3.4 Mae gwaith y chwarter blaenorol wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ymhellach yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Prosiect 4G+, ac ar gynnal ymarfer caffael ar gyfer y Prosiect Mapio a Dadansoddi a

gefnogwyd gan gyllid o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

3.5 Mae cyfleoedd ychwanegol o ran prosiectau wedi’u hystyried yn ddiweddar gan Fwrdd y Rhaglen Ddigidol er mwyn darparu ‘rhestr o brosiectau arfaethedig’. Cafodd dau ohonynt eu clustnodi’n brosiectau cyfalaf ychwanegol â blaenoriaeth o fewn y rhaglen.

3.6 Mae Cytundeb Mynediad Agored, sy’n ceisio cyflwyno proses a dull gweithredu priodol i alluogi gweithredwyr band eang a rhwydweithiau ffonau symudol i ddefnyddio asedau cynghorau i wella cysylltedd, yn mynd drwy brosesau cyfreithiol. Bydd y prosiect hefyd yn hybu llwyddiant y Prosiect 4G+.

**Y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo**

3.7 Bu rhywfaint o oedi wrth symud y ddau brosiect mwyaf blaenllaw yn eu blaen, ac roedd y prif heriau’n ymwneud â gallu’r partneriaid presennol i sicrhau adnoddau digonol. Nes y ceir ymrwymiad ffurfiol gan bob partner i symud y prosiectau yn eu blaen, gallai symud y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn ei blaen barhau’n anodd, o leiaf yn y tymor byr. Mae trafodaethau’n parhau â phartneriaid y ddau brosiect ac â Bwrdd y Rhaglen.

3.8 Fodd bynnag, mae cynnydd da’n cael ei wneud o safbwynt y cynigion i sefydlu Cronfa Ymyrraeth Leol, ac mae is-grŵp wedi’i greu i symud y mater yn ei flaen.

**Prosiectau**

3.9 Mae cynnydd da’n cael ei wneud gyda’r 9 prosiect annibynnol. Mae pob un ohonynt wedi cyflwyno Achosion Amlinellol Strategol ac mae tri ohonynt wedi cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol.

3.10 Yn dilyn gweithdy a thrafodaethau pellach am yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect **Campws Gweithgynhyrchu Uwch**, mae’r arfarniad wedi’i gwblhau – **gweler eitem 7 ar yr agenda**.

3.11 Mae **Achos Busnes Amlinellol prosiect Llynnoedd Cwm Elan** wedi’i arfarnu ac mae Adolygiad Sicrwydd Porth 2 wedi’i gynnal. Cafodd y canfyddiadau eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni’r Portffolio ar 15 Mawrth 2024 – **gweler eitem 8 ar yr agenda**.

3.12 Yn ogystal, mae Achosion Busnes Amlinellol wedi dod i law ar gyfer y Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd a’r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol. Mae’r ddau Achos Busnes Amlinellol wedi’u harfarnu, ond gofynnwyd am eglurhad/gwybodaeth ychwanegol am nifer o feysydd. Felly, bydd yr asesiadau’n cael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol pan fydd y wybodaeth honno wedi dod i law ac wedi’i hasesu a phan fydd Bwrdd Cyflawni’r Portffolio wedi cytuno ar argymhelliad.

3.13 Mae penodi Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad wedi’i gwneud yn bosibl ymgysylltu’n fwy helaeth a meithrin perthynas â Noddwyr Prosiectau, ac mae

o leiaf cyfarfodydd rhagarweiniol wedi digwydd. At hynny, cafwyd sgyrsiau manylach â'r sawl sydd wedi symud ymlaen ymhellach, a oedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch gofynion achosion busnes ac adolygiadau sicrwydd. Bydd hynny'n arwain at gynnal cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd â'r prosiectau i gyd, a fydd yn ei gwneud yn bosibl monitro cynnydd yn fanylach, adrodd yn ei gylch ac uwchgyfeirio problemau fel y bo'n briodol.

3.14 Nodir o hyd bod costau datblygu yn broblem i brosiectau, a soniwyd am hynny yn ystod yr adolygiad sicrwydd diweddar ar gyfer prosiect Llynnoedd Cwm Elan. Dywedodd aelodau tîm yr adolygiad, ar sail eu profiad nhw, na fyddai unrhyw brosiect yn fodlon symud ymlaen gan gymryd risg heb fod cyllid yn cael ei ryddhau cyn y penderfyniad ynghylch yr Achos Busnes Llawn. Mae trafodaethau'n parhau. Y gwir amdani o hyd yw bod cyllid refeniw (costau datblygu) yn dal yn broblem sylweddol i brosiectau – heb fod unrhyw gyllid ar gael gan y Fargen Twf.

3.15 **Arfarniadau Achosion Busnes** – ar gais Uwch-swyddogion Cyfrifol y Portffolio, mae lefel ychwanegol o sicrwydd wedi'i hychwanegu er mwyn cryfhau'r broses arfarnu ymhellach. Fel y mae'r aelodau yn gwybod, caiff yr arfarniadau eu cynnal gan aelodau o dîm Swyddfa Rheoli'r Portffolio/tîm Tyfu Canolbarth Cymru a Hatch Ltd. Er y caiff cyfarfodydd cymedroli eu cynnal i adolygu'r arfarniad cyffredinol, cytunwyd â Hatch y bydd y cwmni'n darparu adolygiad i wirio bod popeth yn gwneud synnwyr, er mwyn sicrhau bod ymatebion yn cael eu croesgyfeirio a'u bod yn gyson.

3.16 Gweler **Atodiad 1 Trosolwg Portffolio** am fwy o fanion

## 4 Achos Busnes Portffolio Strategol

4.1 Ers mis Rhagfyr mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r Achos Busnes Portffolio Strategol, sydd ei angen bob blwyddyn, gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r Rhaglenni a'r Prosiectau. Mae hyn wedi cael ei arwain gan yr Swyddfa Rheoli'r Portffolio gyda chefnogaeth gan Hatch Ltd. Dyma'r trydydd iteriad – gweler Atodiad 4 (dogfen ar wahân).

4.2 Fel y gŵyr yr aelodau, mae'r Achos Busnes Portffolio Strategol yn disgrifio'r cyd-destun ar gyfer y Fargen Dwf, sut mae'n cael ei datblygu a sut y bydd yn cael ei chyflawni ac yn dilyn fformat gofynnol y Llywodraeth o ran canllawiau Achos Gwell Busnes a 5 Model Achos.

4.3 Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau o'r Bwrdd Cyflawni Portffolio ar 28 Mawrth i redeg drwy'r newidiadau a wnaed i'r Achos Busnes Portffolio Strategol yn yr iteriad hwn – gweler **Atodiad 2** ar gyfer y cyflwyniad.

### Penderfyniad a geisir

4.4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Portffolio Strategol (v3) a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Broses Cymeradwyo Ariannu Blynyddol.

## 5 Llywodraethu

5.1 Ar ôl llwyddo i benodi Diane Reynolds yn Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd a Thwf, mae'r rolau Uwch-swyddogion Cyfrifol yr adroddwyd yn eu cylch yn flaenorol yn parhau ar waith. Mae hyfforddiant i Uwch-swyddogion Cyfrifol yn cael ei drefnu. O ganlyniad, penodwyd Steve Lesbirel yn Gadeirydd ac mae cyfweliadau yn cael eu cynnal i benodi aelodau ychwanegol yn dilyn ac ymgyrch hysbysebu.

5.2 Cafodd cyfarfod ei gynnal ag aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd ym mis Rhagfyr, a chytunwyd y byddai camau'n cael eu cymryd i chwilio am aelodau newydd i'r grŵp. Cytunwyd hefyd y byddai Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu penodi. Mae dogfennau sy'n egluro Cylch Gwaith / Rolau a Chyfrifoldebau wedi'u drafftio, ac mae sawl un wedi mynegi diddordeb ar ôl ymgyrch hysbysebu.

## 6 Sicrwydd

6.1 **Adolygiad Sicrwydd y Portffolio** – bydd Adolygiad Sicrwydd nesaf y Portffolio yn digwydd ym mis Mai 2024.

6.2 **Sicrwydd o ran Prosiectau** – cafodd Adolygiad Sicrwydd Porth 2 ei gynnal ar gyfer prosiect Llynnoedd Cwm Elan rhwng 21 a 23 Chwefror, a chafodd y prosiect ei roi yn y categori Oren-Gwyrdd o ran hyder. Mae cyfarfodydd asesu cychwynnol gyda Chanolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ar gyfer y Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd a'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol ac mae dyddiadau dros dro wedi'u pennu ar gyfer adolygiadau Porth 2 ym mis Mehefin 2024.

## 7 Adnoddau

7.1 Ni chafodd unrhyw anghenion ychwanegol o ran adnoddau eu nodi. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus.

## 8 Risg

8.1 Mae'r Gofrestr Risg a Materion wedi'i diweddaru er mwyn adlewyrchu'r symud sydd wedi digwydd o gam sefydlu i gam cyflawni'r Fargen Twf. Mae hynny'n cynnwys dileu'r risgiau a'r materion yr ymdriniwyd â nhw neu nad ydynt yn berthnasol erbyn hyn. Mae'r Gofrestr Risg gyfredol i'w gweld yn Atodiad 3. Dyma'r prif risgiau presennol:

- Ariannol – Arian cyfatebol y Portffolio
- Ariannol – Pwysau oherwydd chwyddiant
- Ariannol – Ariannu costau datblygu prosiectau
- Caffael – Problemau'n ymwneud â chadwynau cyflenwi
- Cyflawni – Ansawdd yr achosion busnes a gyflwynir

## 9 Monitro a gwerthuso

9.1 Mae fframwaith monitro a gwerthuso'n cael ei ddatblygu ar gyfer y Fargen Twf wrth i'r Fargen Twf symud yn ei blaen.

## 10 Gwireddu manteision

10.1 Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddiweddaru'r Fframwaith Gwireddu Manteision, a oedd yn cynnwys sefydlu egwyddorion, dull gweithredu, dangosyddion manteision a diffiniadau o fanteision, a nodi a chroesgyfeirio effaith ar sail polisïau rhanbarthol a chenedlaethol.

10.2 Wrth i Brosiectau symud ymlaen i gam yr Achos Busnes Amlinellol, bydd manylion am y manteision a gynigir yn cael eu hystyried ymhellach a bydd hynny'n llywio'r modd y caiff y Cynllun ei ddatblygu. Mae'r gwaith cyfredol wedi'i ymgorffori yn fersiwn 3 yr Achos Busnes Portffolio Strategol.

## 11 Diweddariad ynghylch gwaith cyfathrebu

**24-01-24**
Soniwyd am y Rhaglen Ddigidol yn natganiad i'r wasg Cyngor Sir Powys am y Gronfa Ffyniant Gyffredin:
Arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin i 32 prosiect er mwyn helpu busnesau Powys i ehangu

**08-02-24**

Grŵp Cynghori Economaidd: Angen Arweinwyr Busnes i gefnogi'r gwaith o gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru

**https://growingwelsh.powys1-prd.gosshosted.com/article/15609/Angen-Arweinwyr-Busnes-i-gefnogir-gwaith-o-gyflawni-Bargen-Twf-Canolbarth-Cymru**

Yn **Business News Wales**

## 12 Y camau nesaf

12.1 Isod ceir trosolwg o'r camau nesaf:

| | |
|---|---|
| **Ebrill** | Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – cael argymhellion i'w hystyried ynghylch yr Achosion Busnes |
| **Ebrill** | Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – cael yr Achos Busnes Portffolio Strategol sydd wedi'i ddiweddaru i'w gymeradwyo |
| **Ebrill** | Cyflwyno Achos Busnes Portffolio Strategol i Lywodraethau |
| **Mai** | Adolygiad Sicrwydd y Portffolio |
| **Mehefin/Medi(i'w gadarnhau)** | Bwrdd Gweithredu Bargeinion Twf a Bargeinion Dinesig Cymru (proses o gymeradwyo cyllid blynyddol) |
| **Mehefin** | Bwrdd Cyflawni'r Portffolio – cael asesiadau ynghylch Achosion Busnes Amlinellol (y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol a'r Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd) |

| | |
|---|---|
| **Mehefin** | Adolygiadau Sicrwydd Prosiectau: Y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol a'r Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd |

## 13 Goblygiadau cyfreithiol

13.1 Dim.

## 14 Goblygiadau o ran adnoddau dynol

14.1 Dim.

## 15 Goblygiadau ariannol

15.1 Dim.

## 16 Atodiadau

- Atodiad 1: Trosolwg o'r Portffolio
- Atodiad 2: Cofrestr Risg a Materion y Portffolio
- Atodiad 3: Cofrestr Risg Portffolio
- Atodiad 4: Achos Busnes Portffolio Strategol v3